# AROLYGIAD LLAWN AR Y CYD

# Meini prawf arolygu

**ar gyfer y**

# Modiwl Llywodraethu

## Cyflwyniad

Mae'r meini prawf hyn yn mynd y tu hwnt i elfennau arweinyddiaeth, rheoli a phartneriaeth y Meini Prawf ar gyfer yr Arolygiad Llawn ar y Cyd (FJI). Mae'r meini prawf arweinyddiaeth gadarnhaol, rheoli a gwaith partneriaeth effeithiol yn y ddogfen honno yn canolbwyntio ar gefnogi a herio ymarfer. Mae'r meini prawf hyn yn darparu meincnod ar gyfer llywodraethu ehangach ac arweinyddiaeth strategol sydd i'w cael ar draws y Bwrdd Rheoli a thu hwnt. Fel grŵp o arolygiaethau sy'n gweithio ar draws gwahanol ddisgyblaethau, rydym yn chwilio am dystiolaeth ynghylch pa mor dda mae partneriaid strategol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac yn gyrru ansawdd, nid yn unig ar draws y ddarpariaeth TTI, ond hefyd ar draws gwasanaethau eraill sy'n darparu ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu.

Nodwch ein bod rhagddodi'r meini prawf modiwl llywodraethu gyda'r llythyren G i wahaniaethu oddi wrth y Meini Prawf FJI.

## G1.1 Arweinyddiaeth

Mae'r bartneriaeth TTI[1] a'r Bwrdd Rheoli[2], yn darparu rheolaeth ddigonol i fodloni amcanion cyfiawnder troseddol cenedlaethol a lleol, ac maent yn cyflawni canlyniadau effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu a'r gymuned leol. Caiff cydraddoldeb cyfle a materion amrywiaeth ehangach eu blaenoriaethu drwy gydol y ddogfen.

| G1.1 Bodloni amcanion cyfiawnder troseddol cenedlaethol a lleol |
|---|

***Dangosyddion ansawdd***

- *Mae'r strwythurau strategol lleol yn hwyluso cyflawni amcanion lleol a chenedlaethol.*
- *Mae cadeirydd y Bwrdd yn dangos arweinyddiaeth drwy ddatblygu synergedd rhwng aelodau ac annog herio. Aelodau yn cael eu cefnogi a'u dwyn i gyfrif yn eu gwaith, fel y mae'r Rheolwr TTI [3].*
- *Mae aelodau yn mynychu ac yn cyfrannu'n effeithiol at waith y Bwrdd.*
- *Mae aelodau'r Bwrdd a phobl eraill berthnasol yn derbyn ac yn deall data meintiol ac ansoddol am berfformiad y TTI, sy'n amserol ac yn dangos gwelliannau dros amser.*
- *Mae aelodau'r bwrdd yn dal Rheolwr y TTI i gyfrif a lle bo'n angenrheidiol yn comisiynu gwaith ar berfformiad er mwyn nodi a chyflawni gwelliannau.*
- *Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau clir ac atebol yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.*
- *Mae cynllun cyfiawnder ieuenctid yn ei le sy'n gymorth i gyflawni amcanion cyfiawnder troseddol lleol a chenedlaethol drwy ragweld anghenion y dyfodol a gosod blaenoriaethau.*
- *Caiff cynlluniau cyfiawnder ieuenctid eu hintegreiddio â chynlluniau perthnasol eraill ar gyfer plant a phobl ifanc i facsimeiddio'r tebygolrwydd y bydd amcanion lleol a chenedlaethol yn cael eu bodloni.*
- *Defnyddir adnoddau digonol a phriodol yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion asesedig.*
- *Mae Bwrdd Rheoli'r TTI yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn talu sylw i ffactorau amrywiaeth drwy gydol ei waith, ac ymdrin â ffactorau gwahaniaethol lle maent yn bodoli.*
- *Mae'r arweinyddiaeth a ddarperir gan y bartneriaeth TTI ac eraill, drwy'r Bwrdd Rheoli a threfniadau llywodraethu eraill, yn effeithiol wrth sicrhau bod amcanion cyfiawnder troseddol lleol a chenedlaethol*

[1] Rydym yn defnyddio'r term TTI gan fod hwn yn y ddeddfwriaeth ond mae'n yn cyfeirio at yr holl bartneriaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu

[2] Mae hyn yn debygol o fod yn ehangach na'r hyn a nodwyd gan ei fod hefyd yn ymwneud ag unrhyw gorff strategol sy'n gyfrifol am waith gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a / neu 'r rhai sy'n debygol o droseddu. Mewn deddfwriaeth, y person sy'n gyffredinol gyfrifol yw prif weithredwr yr awdurdod lleol.

[3] Rydym yn cyfeirio yma at Reolwr y TTI fel term generig sy'n cynnwys y rheolwr/wyr llinell sy'n gyfrifol am y gwaith a wneir gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu

*yn cael eu bodloni; yn arbennig bod plant a phobl ifanc yn llai tebygol o droseddu, bod dioddefwyr yn cael eu diogelu a bod plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn cael eu cadw'n ddiogel.*

## G1.2 Partneriaethau

Mae'r TTI wedi datblygu partneriaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau canlyniadau effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu a'r gymuned leol.

### G1.2 Mae partneriaethau effeithiol yn gwneud gwahaniaeth

G1.2.1 Mae gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol o ran lleihau troseddu gan blant a phobl ifanc, amddiffyn eu dioddefwyr a chadw'r rhai sydd wedi troseddu yn ddiogel.

***Dangosyddion ansawdd:***

- *Mae'r gwaith a gomisiynwyd yn cael ei gyflenwi gan bartneriaid, yn seiliedig ar anghenion a aseswyd, yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu ac yn ystyried anghenion amrywiaeth priodol.*
- *Mae'r cynlluniau y cytunwyd arnynt ar y cyd gan y TTI a phartneriaid allweddol yn cael eu gweithredu a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae Cynlluniau Partner yn darparu ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu.*
- *Mae Bwrdd Rheoli'r TTI yn gweithio gydag asiantaethau partner i ymdrin â thanberfformiad, ac yn sicrhau bod tystiolaeth o welliannau o ran darparu gwasanaethau.*
- *Mae'r TTI yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon gyda phartneriaid i gydlynu a rhannu adnoddau, gan gynnwys, er enghraifft, adnoddau dynol, trefniadau strwythurol, rhannu gwybodaeth, a darparu gwasanaethau.*
- *Mae partneriaid y TTI yn cyfrannu at strategaethau aml-asiantaeth lleol ac yn gweithio gyda sefydliadau cyfiawnder troseddol lleol, cenedlaethol ac eraill i sicrhau cyflawni canlyniadau llwyddiannus.*
- *Mae'r TTI wedi'i staffio'n briodol, ac mae gwasanaethau yn cael eu cyflenwi'n briodol gan asiantaethau partner, o leiaf yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder/ Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.*
- *Mae ymyriadau a gwasanaethau, gan gynnwys iechyd ac addysg, yn cael eu darparu ar draws yr awdurdod i fodloni anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu.*
- *Mae'r TTI yn gweithio gyda'r llysoedd i gynorthwyo yng ngweinyddiaeth effeithlon ac effeithiol o gyfiawnder i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu.*
- *Mae'r TTI yn cyfrannu'n effeithiol at y Trefniadau Aml-asiantaeth Amddiffyn y Cyhoedd lleol (MAPPA) a threfniadau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant (LSCB).*

## G1.3 Rheoli'r Gweithlu

Mae gan y TTI drefniadau rheoli gweithlu yn eu lle, sy'n galluogi staff i gyflawni ymgysylltiad o ansawdd a chanlyniadau effeithiol i blant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu, a'r gymuned leol.

### G1.3 Mae arweinyddiaeth a rheolaeth gweithlu effeithiol yn cefnogi cyflenwi gwasanaeth o ansawdd

G1.3.1 Mae canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, eu dioddefwyr a'r gymuned leol yn cael eu gwneud yn fwy tebygol trwy staff o ansawdd uchel a chynllunio effeithiol o'r gweithlu.

***Dangosyddion ansawdd:***

- *Mae'r holl staff yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth glir o weledigaeth y TTI i gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw, a'u rôl wrth gyflawni'r weledigaeth honno.*
- *Mae staff yn cael eu goruchwylio'n briodol a'u gwerthuso o fewn fframwaith rheoli perfformiad, yn unol â'u rôl ac anghenion datblygu a nodwyd.*
- *Mae'r TTI a phartneriaid yn darparu cyfleoedd datblygu i alluogi'r holl staff fodloni canlyniadau darpariaeth gwasanaeth.*
- *Mae staff yn derbyn hyfforddiant craidd effeithiol o ansawdd da yn unol â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae anghenion hyfforddi yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a darperir hyfforddiant i ddiwallu'r angen.*
- *Mae holl staff y TTI yn deall tasgau a ffiniau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ac maent yn gymwys a chanddynt y cymwysterau priodol i wneud eu gwaith.*
- *Mae rheolwyr yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol a'r amser i asesu a gwella ansawdd ymarfer ac i ddal y staff i gyfrif.*
- *Mae diwylliant dysgu o fewn y TTI sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi hyfforddiant a datblygiad parhaus ac yn defnyddio gwersi, o ganlyniadau llwyddiannus ac aflwyddiannus fel ei gilydd, ar gyfer gwaith i'r dyfodol.*
- *Mae staff y TTI yn ymateb yn gadarnhaol i gyflwyno a gweithredu newid.*
- *Mae strategaeth gynhwysfawr ac effeithiol yn ei lle i gynnal parhad gwasanaeth yn ystod cyfnodau o absenoldeb staff sydd wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio.*
- *Mae gan y TTI weithdrefnau ffurfiol ar waith ar gyfer ymdrin â gallu staff a materion cwynion yn ogystal â gweithdrefn ffurfiol ar gyfer cwynion defnyddwyr gwasanaeth.*
- *Mae'r TTI yn cydnabod, yn dathlu ac yn gwobrwyo gwaith rhagorol ac yn rhannu arfer gorau.*

## G1.4 Adolygu a gwerthuso

Mae'r TTI yn adolygu a gwerthuso'n barhaus gyflenwad ei wasanaeth i wella a chynnal canlyniadau effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sy'n debygol o droseddu, a'r gymuned leol.

| G1.4 Cyflawni a chynnal canlyniadau cadarnhaol |
|---|

G1.4.1 Mae canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, eu dioddefwyr a'r gymuned leol yn cael eu gwneud yn fwy tebygol drwy adolygu a gwella effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir gan y TTI ac eraill.

***Dangosyddion ansawdd:***

- *Mae cynlluniau, ymyriadau a chanlyniadau yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn asesu gwelliant.*
- *Mae tîm rheoli'r TTI a phartneriaid yn derbyn ac yn gofyn am wybodaeth am berfformiad, gan gynnwys cyfeiriad at berfformiad o grwpiau dan anfantais a rhai wedi'u gorgynrychioli er mwyn gwella ymarfer.*
- *Mae'r TTI wedi ymgysylltu ag addysg uwch, rhaglenni peilot a chyrff eraill i helpu gwerthuso yn annibynnol effeithiolrwydd y gwaith a wnaed. Mae'n agored i'w waith gael ei graffu.*